RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
59/2023
DYDDIAD CYHOEDDI:
06/06/2023

# Agweddau'r cyhoedd at isafbris am alcohol yng Nghymru ac ymwybyddiaeth ohono 2018 - 2022

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol **978-1-83504-022-5**

Teitl: Agweddau'r cyhoedd at isafbris am alcohol yng Nghymru ac ymwybyddiaeth ohono

Awdur(on): Tom Cartwright

Adroddiad Ymchwil Llawn: Cartwright, T. (2023). *Agweddau'r cyhoedd at isafbris am alcohol yng Nghymru ac ymwybyddiaeth ohono*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 59/2023
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/agweddaur-cyhoedd-isafbris-am-alcohol-yng-nghymru-ac-ymwybyddiaeth-ohono

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:
Janine Hale
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: ymchwil.iechydagwasanaethaucymdeithasol@llyw.cymru

## Tabl cynnwys

Rhestr o dablau....................2
Rhestr o ffigurau....................3
Geirfa ....................4
1. Cyflwyniad/Cefndir....................6
2. Yfed alcohol....................10
3. Ymwybyddiaeth o gynigion a chefnogaeth i gyflwyno isafbris am alcohol....................17
4. Canfyddiadau am effaith Isafswm Pris Alcohol....................24
5. Trafodaeth....................31
Atodiad A: Methodoleg....................35
Atodiad B: Holiadur....................42

**Rhestr o dablau**

Tabl 1: Cwestiynau AUDIT-C ar yfed alcohol ..... 10
Tabl 2: Beth mae ymatebwyr yn ei feddwl yw'r cynigion ar gyfer rheolaethau prisiau ..... 19
Tabl 3: Cefnogaeth i osod isafbris uned alcohol ..... 21
Tabl 4: Rhesymau dros fod O BLAID isafbris am alcohol ..... 22
Tabl 5: Rhesymau dros fod YN ERBYN isafswm pris ..... 23

**Rhestr o ffigurau**

Ffigur 1: Amlder yfed alcohol yn ôl oedran a rhywedd – Mehefin 2022 ............ 12
Ffigur 2: Unedau o alcohol a yfir ar ddiwrnod arferol wrth yfed yn ôl oedran a rhywedd – Mehefin 2022 ............ 13
Ffigur 3: Amlder goryfed mewn pyliau ymhlith ymatebwyr sy'n yfed alcohol yn ôl oedran a rhywedd – Mehefin 2022 ............ 15
Ffigur 4: Dosbarthiad risg yfed alcohol yn ôl oedran a rhywedd – Mehefin 2022 ............ 16
Ffigur 5: % yr ymatebwyr a oedd yn ymwybodol o unrhyw gynigion i osod rheolaethau ar bris alcohol yn ôl dosbarthiad AUDIT-C ............ 18
Ffigur 6: % yr ymatebwyr a oedd wedi gweld neu glywed unrhyw beth am gynnig isafbris yn ôl gradd gymdeithasol – 2020 ............ 20
Ffigur 7: Cefnogaeth i isafbris am alcohol yn ôl dosbarthiad AUDIT-C ............ 21
Ffigur 8: Codi pris cynnyrch alcohol rhatach (a) ............ 25
Ffigur 9: 'Byddai codi pris cynnyrch alcohol rhatach yn lleihau trosedd' yn ôl dosbarthiad AUDIT-C ............ 26
Ffigur 10: 'Byddai codi pris cynnyrch alcohol rhatach yn lleihau afiechyd' yn ôl dosbarthiad AUDIT-C ............ 27
Ffigur 11: 'Ni fyddai codi pris cynhyrchion alcohol rhatach yn gwneud unrhyw wahaniaeth i faint mae pobl yn ei yfed' yn ôl dosbarthiad AUDIT-C ............ 28
Ffigur 12: 'Mae faint mae rhywun yn ei yfed yn ddewis personol ac ni ddylai'r llywodraeth ymyrryd' yn ôl dosbarthiad AUDIT-C ............ 30

**Geirfa**

| **Acronym/Gair allweddol** | **Diffiniad** |
|---|---|
| AUDIT-C | Prawf Adnabod Anhwylderau Defnydd Alcohol – Yfed |
| Marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol | Mae diffiniad yr Ystadegau Gwladol o farwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol yn cynnwys achosion sylfaenol marwolaethau sy'n cael eu hystyried yn fwyaf uniongyrchol oherwydd yfed alcohol. Mae'r diffiniad wedi'i seilio'n bennaf ar gyflyrau cronig sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol yn y tymor hir ac, i raddau llai, cyflyrau acíwt. Ar wahân i wenwyno ag alcohol (damweiniol, bwriadol neu amhenodol), nid yw'r diffiniad yn cynnwys achosion allanol eraill o farwolaeth, megis traffig ffyrdd a damweiniau eraill. (SYG 2016) |
| Marwolaethau alcohol-benodol | Mae diffiniad Ystadegau Gwladol o farwolaethau sy'n benodol oherwydd alcohol yn cynnwys y cyflyrau iechyd hynny lle mae pob marwolaeth yn ganlyniad uniongyrchol i gamddefnyddio alcohol yn unig (hynny yw, marwolaethau y gellir eu priodoli'n gyfan gwbl). Mae'r diffiniad sy'n benodol i alcohol yn ddiffiniad manwl gywir ond cul, sy'n gweddu orau i werthuso tueddiadau dros amser, ac i edrych ar y gwahaniaeth cymharol rhwng gwahanol ranbarthau a gwledydd. Mae'n amcangyfrif rhy isel o raddau llawn marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol. (SYG 2021) |
| Yfwr niweidiol | Mae'r termau yfwyr cymedrol, peryglus a niweidiol yn seiliedig ar sgorau AUDIT. Yfwr niweidiol yw rhywun sy'n sgorio 16 neu'n fwy ar yr AUDIT ac yr asesir ei fod mewn risg uchel o niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol |
| Yfwr peryglus | Mae'r termau yfwyr cymedrol, peryglus a niweidiol yn seiliedig ar sgorau AUDIT. Yfwr peryglus yw rhywun sy'n |

| | |
|---|---|
| | sgorio rhwng 8 a 15 ar yr AUDIT ac yr asesir ei fod mewn risg cynyddol o niwed sy’n gysylltiedig ag alcohol |
| Yfed risg cynyddol neu uwch | Y rhai sy’n sgorio 5 neu fwy ar y prawf AUDIT-C sy’n dangos mwy o debygolrwydd o yfed peryglus neu niweidiol |
| Yfed risg is | Y rhai sy’n sgorio 4 neu lai ar y prawf AUDIT-C, sy’n dangos ymddygiad yfed gyda llai o debygolrwydd o effeithiau peryglus a niweidiol. |
| Yfwr cymedrol | Mae’r termau yfwyr cymedrol, peryglus a niweidiol yn seiliedig ar sgorau AUDIT. Yfwr cymedrol yw rhywun sy’n sgorio rhwng 0 a 7 ar yr AUDIT ac yr asesir ei fod mewn risg isel o niwed sy’n gysylltiedig ag alcohol |
| IA | Isafbris am Alcohol |
| IU | Isafbris Uned – y lefel a osodwyd fesul uned a ddefnyddir i gyfrifo’r isafbris am alcohol. |
| RMD | Diod Gymysg Barod (Ready Mixed Drink) |
| | |

# 1. Cyflwyniad/Cefndir

## 1.1 Cefndir

Rhoddwyd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018[1] ("y Ddeddf") ar waith ar yr 2il o Fawrth 2020 ac mae'n gwneud darpariaethau ynghylch yr isafbris y mae alcohol i'w gyflenwi gan fanwerthwyr alcohol o leoedd cymwys yng Nghymru i unigolyn yng Nghymru ac yn sefydlu trefn orfodi a arweinir gan awdurdod lleol.

Mae adran 1 y Ddeddf yn nodi'r fformiwla sydd i'w defnyddio wrth gyfrifo'r isafbris cymwys at y diben hwn. Y fformiwla honno yw M x S x V. M yw'r isafbris uned (IU) a bennir mewn rheoliadau; S yw cryfder yr alcohol, wedi'i fynegi fel rhif cardinal (felly, er enghraifft, os yw'r cryfder yn 5%, y rhif cardinal perthnasol fydd 5); a V yw cyfaint yr alcohol mewn litrau.

Amcan y Ddeddf yn y pen draw yw mynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol, gan gynnwys derbyniadau i'r ysbyty y gellir eu priodoli i alcohol a marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol yng Nghymru, drwy leihau faint o alcohol a gaiff ei yfed ymhlith yfwyr peryglus a niweidiol. Rhwng 2001 a 2020 pan roddwyd y Ddeddf ar waith, bu cynnydd yn nifer y marwolaethau sy'n ymwneud ag alcohol yn benodol yng Nghymru yn ôl amcangyfrifon y Swyddfa Ystadegau Gwladol, o 277 yn 2001 i 438 o farwolaethau alcohol-benodol yng Nghymru yn 2020 (cynnydd o 368 yn 2019)[2]. Roedd nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol hefyd wedi cynyddu yn 2020 o'i gymharu â 2019 (570 o'i gymharu â 495)[3] wrth ystyried data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. At hynny, yn 2020/21, roedd bron i 45,000 o dderbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol[4]. Mae'r Ddeddf a'r rheoliadau sy'n pennu lefel yr isafbris uned wedi'u targedu at ddiogelu iechyd yfwyr peryglus a niweidiol (gan gynnwys pobl ifanc) sy'n tueddu i yfed mwy o gynhyrchion cost isel a chynnwys alcohol uchel.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ddwywaith ynghylch yr egwyddor o gyflwyno isafbris am alcohol yng Nghymru – yn 2014 fel rhan o Bapur Gwyn Iechyd y Cyhoedd ac yn 2015 ar y Bil Iechyd y Cyhoedd drafft (Isafbris am Alcohol)

---

[1] Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 (www.legislation.gov.uk/cy)
[2] Alcohol-specific deaths in the UK - Office for National Statistics (ons.gov.uk)
[3] Cloddio data Cymru: Y proffil blynyddol ar gyfer camddefnyddio sylweddau 2020-21. Iechyd Cyhoeddus Cymru
[4] Cloddio data Cymru: Y proffil blynyddol ar gyfer camddefnyddio sylweddau 2020-21. Iechyd Cyhoeddus Cymru

(Cymru)[5]. Derbyniodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol ar y 9fed o Awst 2018, gyda'r rheoliadau cysylltiedig yn cael eu cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar y pryd (Senedd Cymru erbyn hyn) ar y 12fed o Dachwedd 2019. Ochr yn ochr â rhoi'r Ddeddf ar waith ym mis Mawrth 2020, mae canllawiau wedi'u cynhyrchu sy'n amlinellu diben y ddeddf, y ffordd y caiff ei rhoi ar waith a'r ffordd y caiff ei gorfodi[6].

Fel rhan o'r gwaith datblygu ar gyfer y Bil drafft, comisiynodd Llywodraeth Cymru gwestiynau yng nghylch mis Mawrth 2014 o Arolwg Omnibws Cymru a gynhaliwyd gan Beaufort Research Ltd. Diben y gwaith hwnnw oedd cynyddu dealltwriaeth o agweddau'r cyhoedd at alcohol ac isafbris[7]. Yn dilyn y gwaith hwn ac fel rhan o ddiwallu'r anghenion tystiolaeth ar gyfer gweithredu'r Ddeddf, comisiynodd Llywodraeth Cymru gwestiynau pellach yng nghylch mis Medi 2018 a mis Mawrth 2020 o'r arolwg. Diben hyn oedd deall agweddau'r cyhoedd at alcohol ac ymwybyddiaeth o'r cynlluniau a chyflwyno isafbris am alcohol yn y pen draw. Bwriadwyd yn wreiddiol i ganfyddiadau'r arolygon hyn gael eu cyhoeddi yn ystod 2020 ond arweiniodd dyfodiad y pandemig COVID-19 at oedi cyn cynhyrchu'r adroddiad hwn er mwyn gallu blaenoriaethu gwaith arall. Ymhellach, rhwng Mehefin 2020 a Mehefin 2022 cynhwyswyd is-set o gwestiynau (amlder yfed, nifer yr unedau a yfwyd ar ddiwrnod arferol o yfed ac amlder goryfed mewn pyliau) mewn pum ton arall o'r arolwg omnibws. Mae'r gwaith hwn yn un rhan o raglen ehangach[8] o waith sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Ddeddf, gan gynnwys gwerthusiad annibynnol o weithrediad y ddeddfwriaeth.

## 1.2 Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau tonnau 2018 i 2022 Arolwg Omnibws Cymru ac yn rhoi dadansoddiad wedi'i ddiweddaru o'r canfyddiadau a gyhoeddwyd yn 2014[9]. Ar gyfer ton Medi 2018 Arolwg Omnibws Cymru, gofynnwyd cwestiynau i 1,015 o ymatebwyr a chynhaliwyd y gwaith maes rhwng 17 a 30 Medi 2018, a

[5] Ymgynghoriad 2015 ar Fil Drafft Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru).

[6] Isafbris Uned ar gyfer alcohol: canllawiau cryno | LLYWODRAETH CYMRU
[7] Agweddau'r cyhoedd at isafbris uned alcohol
[8] Mae cyhoeddiadau eraill sy'n gysylltiedig â gwerthusiad Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018
[9] Agweddau'r cyhoedd at isafbris uned alcohol (llyw.cymru)

chynhaliwyd ychydig o gyfweliadau ar ôl y dyddiad hwn. Roedd ton Mawrth 2020 yn cynnwys cyfanswm o 713 o gyfweliadau[10], gyda'r gwaith maes yn mynd rhagddo rhwng 24 Chwefror a 15 Mawrth 2020. Mae'r arolwg wedi'i gynllunio i gynrychioli'r boblogaeth 16 oed a hŷn sy'n byw yng Nghymru. Lle bo modd, bydd ffigurau a thablau yn cynnwys y data ar gyfer pob cyfnod amser ond lle nad yw hyn yn bosibl dim ond y data diweddaraf a ddangosir yng nghorff yr adroddiad. Mae ffigurau perthnasol ar gyfer pob blwyddyn i'w gweld yn yr atodiad tablau data cysylltiedig.

Yn ogystal â chanfyddiadau arolwg 2014, 2018 a Mawrth 2020, mae'r adroddiad hefyd yn adrodd ar ddata o bum ton o arolwg Omnibws Beaufort a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2020, Tachwedd 2020, Mehefin 2021, Tachwedd 2021 a Mehefin 2022[11]. Roedd y tonnau hyn o gasglu data yn canolbwyntio ar lai o gwestiynau yn ymwneud ag yfed alcohol ac fe'u casglwyd yn bennaf i edrych ar ymddygiadau yn ystod y pandemig COVID-19. O ystyried y cyfyngiadau ar weithgarwch maes o ganlyniad i'r pandemig, cynhaliwyd yr arolygon hyn ar-lein gan ddefnyddio llwyfan cyfnewid panel ar-lein ac felly maent yn wahanol i'r casgliad data wyneb yn wyneb a wnaed cyn y pandemig. Cyflawnodd pob un o'r pum cyfnod casglu hyn faint sampl o 1,000 o ymatebion wedi'u pwysoli i fod yn gynrychioliadol o boblogaeth oedolion Cymru.

O ystyried amseriadau casglu data, dylai darllenwyr fod yn ymwybodol o oblygiadau posibl amgylchiadau'r tair blynedd diwethaf o ran sut y gallai ymatebwyr fod wedi ymateb i'r cwestiynau hyn am ymddygiad yfed. Roedd dyfodiad pandemig COVID-19 yn her i iechyd meddwl a lles unigolion yn ogystal â newid ymddygiadau o ran cymdeithasu. Felly, dylid bod yn ofalus wrth gymharu data cyn-bandemig a data a gasglwyd yn ystod y pandemig.

Mae adran 2 yr adroddiad yn canolbwyntio ar yfed alcohol ac yn ystyried amlder yfed alcohol, nifer yr unedau a yfir ar ddiwrnod arferol wrth yfed alcohol a'r nifer o weithiau y mae ymatebwyr yn adrodd am oryfed mewn pyliau (dros 6 uned i fenywod ac 8 uned i ddynion). Mae'r adran hon yn cynnwys data o arolygon a

[10] Oherwydd yr achosion o goronafeirws a chyflwyno mesurau cadw pellter cymdeithasol, ni lwyddodd y gwaith maes i gyrraedd y sampl targed o 1,000 o ymatebwyr a fyddai yn ei wneud yr un peth â thonnau 2014 a 2018.

[11] Roedd meintiau sampl yr arolygon hyn fel a ganlyn: Mehefin 2020: 1000 o ymatebwyr; Tachwedd 2020: 1002 o ymatebwyr; Mehefin 2021: 1000 o ymatebwyr; Tachwedd 2021: 1000 o ymatebwyr; Mehefin 2022: 1000 o ymatebwyr

gynhaliwyd yn 2014, 2018, a mis Mawrth 2020 (cyn y cyfyngiadau COVID) a phum arolwg a gynhaliwyd rhwng Mehefin 2020 a Mehefin 2022 tra bo cyfyngiad COVID ar waith.

Yna mae adrannau 3 a 4 yn mynd ymlaen i edrych ar ymwybyddiaeth pobl a'u hagweddau at gyflwyno Isafswm Prisiau Alcohol ac yn tynnu ar ddata o arolygon 2014, 2018 a Mawrth 2020 yn unig. Mae'n werth nodi bod adroddiad 2014 yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â dewisiadau diodydd a lleoliadau lle'r oedd ymatebwyr yn yfed alcohol. Er yr ymdriniwyd â'r pynciau hyn yn arolygon 2018 a Mawrth 2020, nid yw'r dadansoddiad hwn wedi'i gynnwys ym mhrif gorff yr adroddiad hwn. Darperir canfyddiadau sy'n ymwneud â hyn yn yr atodiad amgaeedig.

## 1.3 Gwahaniaethau sylweddol

Cynhaliwyd profion ystadegol ar arwyddocâd y data yn y dadansoddiad er mwyn cynorthwyo i ddehongli'r canlyniadau. Pan ddisgrifir gwahaniaeth rhwng dau is-grŵp yn 'arwyddocaol' yn yr adroddiad hwn, mae hyn yn golygu bod y tebygolrwydd o gael y canfyddiad ar hap yn llai nag un o bob 20 – h.y. mae'n debygol o adlewyrchu perthynas wirioneddol yn y boblogaeth[12]. Dylid nodi hefyd bod y dadansoddiad a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn dibynnu ar gynnal profion ystadegol lluosog ac felly mae siawns o arwyddocâd ffug yn rhai o'r dadansoddiadau. Nid yw hyn wedi'i ystyried a'i gywiro yn y dadansoddiad.

Mae rhagor o wybodaeth am fethodoleg yr arolwg yn Atodiad A. Gwelir yr holiadur llawn yn Atodiad B.

[12] Pan fydd data arolygon yn cael eu profi ar gyfer arwyddocâd ystadegol, rhagdybir bod y sampl a gyflawnwyd yn cynrychioli sampl ar hap o'r boblogaeth berthnasol. Gan fod Arolwg Omnibws Cymru yn defnyddio samplu cwota cymesurol, ni ellir sefydlu, a dweud y gwir, arwyddocâd ystadegol gwirioneddol. Felly, mae gwahaniaethau 'sylweddol' yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at wahaniaeth ffug-ystadegol arwyddocaol ar y lefel hyder o 95 y cant.

## 2. Yfed alcohol

Mae Prawf Adnabod Anhwylder Defnydd Alcohol – Yfed (AUDIT-C)[13] Sefydliad Iechyd y Byd (Babor et al, 2001) yn system sgorio sy'n gofyn tri chwestiwn i fesur y risg sy'n gysylltiedig ag yfed alcohol i unigolyn (Tabl 1). Fe'i defnyddir mewn lleoliadau gofal iechyd, gan gynnwys fel rhan o raglen Gwiriad Iechyd y GIG, i ddarparu gwybodaeth yn ymwneud ag yfed alcohol fel ffactor risg[14].

Yna gall unigolion sy'n yfed alcohol gael eu categoreiddio fel 'risg is' (sgôr cyfan o bedwar neu lai) neu 'risg cynyddol neu uwch' (cyfanswm sgôr o bump neu fwy). Gofynnwyd y tri chwestiwn hyn, sy'n addas ar gyfer y dull hwn o gasglu data, er mwyn categoreiddio ymatebwyr yn ôl y risg sy'n gysylltiedig â faint o alcohol a yfant[15].

**Tabl 1: Cwestiynau AUDIT-C ar yfed alcohol**

| Cwestiynau | System sgorio | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 |
| Pa mor aml ydych chi'n yfed diod sy'n cynnwys alcohol? | Byth | Yn fisol neu lai | 2 - 4 gwaith y mis | 2-3 gwaith yr wythnos | 4+ gwaith yr wythnos |
| Sawl uned o alcohol ydych chi'n ei yfed ar ddiwrnod arferol pan fyddwch chi'n yfed? | 1 - 2 | 3 - 4 | 5 - 6 | 7 - 9 | 10+ |
| Pa mor aml ydych chi wedi cael 6 uned neu ragor os yn fenyw, neu 8 neu ragor os yn wryw, ar un achlysur yn ystod y flwyddyn ddiwethaf? | Byth | Llai nag yn fisol | Yn fisol | Yn wythnosol | Bob dydd neu bron bob dydd |

### 2.1 Amlder a maint y defnydd alcohol

*Amlder yfed alcohol*

O ran ymatebion yn ymwneud ag amlder yfed alcohol, mae tuedd yn dod i'r amlwg bod cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd nad ydynt byth yn yfed alcohol wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf, o 28 y cant yn 2018 i 19 y cant ym mis Mawrth 2020 ac ymhellach fyth i un ym mhob deg (10 y cant) o ymatebwyr ym mis Mehefin 2022.


[13] AUDIT : the Alcohol Use Disorders Identification Test : guidelines for use in primary health care (who.int)
[14] NHS Health Check programme: supporting information - NHS Digital
[15] Alcohol use disorders identification test for consumption (AUDIT C) (publishing.service.gov.uk)

Yn y cyfamser, mae cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn yfed alcohol bob mis neu lai wedi aros yn gymharol sefydlog, gan amrywio o gwmpas chwarter yr ymatebwyr (26 y cant ym mis Mehefin 2022). Mae cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn yfed o leiaf 2-3 gwaith yr wythnos wedi cynyddu ychydig ers 2014 a 2018 (28 y cant a 27 o ymatebwyr yn y drefn honno) i 38 y cant o ymatebwyr ym mis Mehefin 2022, ar ôl cyrraedd uchafbwynt o 44 y cant ym mis Mehefin 2020. I gael golwg lawn o'r data rhwng 2014 a 2022 gweler tabl 1.1 yn y ddogfen ddata ategol.

Wrth ystyried y canfyddiadau hyn yn erbyn ffynonellau data eraill, casglodd Arolwg Cenedlaethol Cymru ddata ar amlder yfed yn 2020-21 a 2021-22, ac er bod y codau ymddygiad yfed yn wahanol mae'n rhoi amcangyfrif o nifer y rhai nad ydynt yn yfed, sydd, ar 19 y cant yn 2021-22, yn uwch na'r ffigur o 10 y cant a adroddwyd ym mis Mehefin 2022 o'r data hwn. Er bod hyn o ddiddordeb, mae'n bwysig nodi bod y cwestiynau y mae hyn yn deillio ohonynt yn wahanol a gall gwahaniaethau adlewyrchu hyn. Gweinyddwyd arolwg Beaufort trwy banel ar-lein, tra gweinyddwyd yr Arolwg Cenedlaethol yn ystod y cyfnod hwn trwy gymysgedd o ddulliau ffôn ac ar-lein.

Mae dadansoddiad o ddata 2022 yn ôl oedran a rhywedd yn dangos, ar draws pob categori oedran, bod cyfran uwch o ddynion na menywod yn yfed alcohol o leiaf ddwywaith yr wythnos (Ffigur 1). Roedd hyn ar ei uchaf ymhlith dynion 55 oed a hŷn, lle'r oedd ychydig llai na hanner yn yfed alcohol o leiaf ddwywaith yr wythnos, o'i gymharu â 40 y cant o ddynion o dan 35 oed. Roedd ymatal rhag yfed ar ei uchaf ymhlith menywod 35-54 oed a dynion 55+ oed (12 y cant o'r ddau yn dweud nad oeddent byth yn yfed alcohol). Gwelwyd patrymau tebyg i raddau helaeth ar draws cyfnodau casglu data eraill. I gael dadansoddiadau yn ôl oedran a rhywedd ar gyfer yr arolygon eraill, gweler tablau 1.2 i 1.8 yn y ddogfen ddata ategol.

**Ffigur 1: Amlder yfed alcohol yn ôl oedran a rhywedd – Mehefin 2022**




Sylfaen: 1000 o ymatebwyr.

*Nifer nodweddiadol o unedau sy'n cael eu hyfed ar ddiwrnod arferol wrth yfed*


Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd yn yfed alcohol, sawl uned o alcohol y maent yn ei yfed ar ddiwrnod arferol wrth yfed. Dangoswyd cerdyn arddangos er mwyn cynorthwyo dealltwriaeth o faint o unedau sydd wedi'u cynnwys mewn diodydd alcoholig amrywiol. Rhwng 2018 a'r data diweddaraf yn 2022, mae cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn yfed un neu ddwy uned ar ddiwrnod arferol wedi aros yn gymharol sefydlog, sef tua thraean (37 y cant ym mis Mehefin 2022), sy'n cynrychioli cynnydd ar y ffigur cyfatebol ar gyfer 2014 (29 y cant).

Yn yr un modd, mae nifer yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi yfed 10 uned neu ragor wedi aros yn gymharol sefydlog, gan amrywio rhwng 12 a 17 y cant rhwng 2018 a 2022 ac ers mis Mehefin 2022 yn 13 y cant. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o un o bob pump a ddywedodd eu bod yn yfed ar y lefel hon yn 2014. Ceir dadansoddiad llawn o'r ystadegau hyn ar gyfer pob arolwg yn nhabl 2.1 yr atodiad data cysylltiedig.

Mae dadansoddiad yn ôl oedran a rhywedd yn 2022 (Ffigur 2) yn dangos bod dynion iau a chanol oed yn fwy tebygol o yfed llawer iawn o alcohol ar ddiwrnod

arferol wrth yfed. Er enghraifft, roedd tua chwarter y dynion (27 y cant) 35-54 oed ac un o bob pump o ddynion 16-34 oed yn yfed 10 uned neu fwy ar ddiwrnod arferol o yfed. Mae hyn yn cymharu ag 14 ac 8 y cant o fenywod 16-34 oed a 35-54 oed, yn y drefn honno. Er bod dynion 55+ oed yn dal i yfed mwy na'u cymheiriaid benywaidd, roeddent yn tueddu i yfed llai na dynion iau gydag 11 y cant o ddynion 55+ oed yn yfed mwy na 10 uned ar ddiwrnod arferol o yfed. Mae'n werth nodi, er bod y patrwm cyffredinol hwn yn tueddu i fod yn wir ar draws pob un o'r arolygon, mae amrywiadau sylweddol yn y data ac weithiau mae'r gwahaniaethau hyn yn fwy neu'n llai amlwg nag a welir yn y ffigurau diweddaraf hyn. Ceir dadansoddiad llawn yn ôl oedran a rhywedd ar gyfer pob arolwg yn nhablau 2.2 i 2.8

**Ffigur 2: Unedau o alcohol a yfir ar ddiwrnod arferol wrth yfed yn ôl oedran a rhywedd - Mehefin 2022**




Sylfaen: Yr holl ymatebwyr sy'n yfed alcohol (897).


*Amlder goryfed mewn pyliau*

Er mwyn mesur amlder goryfed mewn pyliau, gofynnwyd i ymatebwyr pa mor aml yr oeddent wedi yfed wyth neu fwy o unedau (dynion) neu chwe uned neu fwy (menywod) ar un achlysur yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Yn gyffredinol, yn 2014, dywedodd traean o'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn yfed (33 y cant) nad

oeddent erioed wedi yfed mwy na'r lefelau hyn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a gynyddodd i 38 y cant yn 2018 cyn gostwng i 24 y cant ym mis Mehefin 2020 lle'r oedd wedi aros yn gymharol sefydlog gyda 26 y cant yn adrodd hyn ym mis Mehefin 2022. I'r rhai a ddywedodd eu bod wedi gwneud hynny'n llai nag yn fisol, mae hyn wedi amrywio tua thraean y bobl ar draws yr holl gyfnodau casglu data, ac ym mis Mehefin 2022 mae'n 36 y cant. Yn yr un modd ar gyfer y rhai a ddywedodd eu bod wedi yfed mwy na'r lefelau hyn yn wythnosol o leiaf, mae'r ffigur wedi aros yn gymharol sefydlog (ac eithrio gostyngiad i un o bob chwech yn 2018 a chynnydd i un o bob pedwar ym mis Tachwedd 2021) gyda thua un o bob pum ymatebwr rhwng 2014 a 2022 yn adrodd hyn (Tabl 3.1 yn y ddogfen tablau data cysylltiedig).

Fel y dengys Ffigur 3 ar gyfer Mehefin 2022, roedd goryfed mewn pyliau yn llai cyffredin ymhlith menywod ac roedd yn fwyaf cyffredin ymhlith y rhai 35-54 oed. Yn gyffredinol, dywedodd 20 y cant o ddynion a 14 y cant o fenywod 16-34 oed eu bod yn yfed mwy na'r lefelau hyn o leiaf unwaith yr wythnos. Ymhlith pobl 35-54 oed, mae'r gyfran hon yn uwch ar gyfer dynion (34 y cant) ac ychydig yn uwch ar gyfer menywod (16 y cant). Mae lefelau is i'w gweld yn y grŵp oedran 55+ lle mae 21 y cant o ddynion a 14 y cant o fenywod yn yfed mwy na'r lefelau hyn o leiaf unwaith yr wythnos. Nid oes patrwm clir wrth ystyried newidiadau rhwng cyfnodau arolwg, ond ar gyfer y dynion hynny rhwng 35 a 54 oed roedd tueddiad cynyddol o oryfed mewn pyliau (y rhai sy'n yfed o leiaf 8 uned neu fwy o leiaf bob wythnos) o 2018 (19 y cant), gan gyrraedd uchafbwynt ym mis Tachwedd 2021 (44 y cant) cyn disgyn ychydig yn ôl i 34 y cant ym mis Mehefin 2022. Ar gyfer ffigurau sy'n ymwneud ag amlder goryfed mewn pyliau yn ôl oedran a rhyw, gweler tablau 3.2 i 3.8 yn y ddogfen tablau data sy'n cyd-fynd â hi.

**Ffigur 3: Amlder goryfed mewn pyliau ymhlith ymatebwyr sy'n yfed alcohol yn ôl oedran a rhywedd – Mehefin 2022**




Sylfaen: Yr holl ymatebwyr sy'n yfed alcohol (897).


## 2.2 Yfwyr risg cynyddol neu uwch

Gan ddefnyddio dosbarthiad AUDIT-C Sefydliad Iechyd y Byd, gellir defnyddio'r data a gasglwyd fel rhan o'r arolygon i gategoreiddio'r ymatebwyr fel 'rhai nad ydynt yn yfed', 'yfwyr risg is', ac 'yfwyr risg cynyddol neu uwch'. Mae'r categorïau hyn yn seiliedig ar sgoriau a roddwyd yn erbyn yr atebion i'r tri chwestiwn ar amlder a maint arferol yfed alcohol, ac amlder goryfed mewn pyliau. Yn 2014 roedd tua phedwar o bob deg o ymatebwyr (38 y cant) wedi'u categoreiddio fel rhai 'risg cynyddol neu uwch'. Yn dilyn gostyngiad cychwynnol i 33 y cant yn 2018, mae'r gyfran a gategoreiddiwyd fel risg gynyddol neu uwch wedi cynyddu i 45 y cant ym mis Mehefin 2022. Mae'r rhai a nodwyd fel risg is wedi aros yn gymharol sefydlog ar tua 40 y cant ers 2018, tra bod cyfran y rhai nad ydynt yn yfed wedi gostwng, fel y nodwyd yn flaenorol. I gael trosolwg o'r ffigurau rhwng 2014 a mis Mehefin 2022 gweler tabl 4.1 yn yr atodiad sydd ynghlwm.

Mae Ffigur 4 (isod) yn dangos cyfran y dynion a menywod mewn gwahanol grwpiau oedran sydd wedi'u categoreiddio fel yfwyr 'risg cynyddol neu uwch' ym mis Mehefin 2022. Mae tua chwech o bob deg dyn, a thua phedair o bob deg menyw 16-34 oed yn cael eu dosbarthu fel rhai sy'n 'risg cynyddol neu uwch'. Er bod cyfran

debyg o fenywod 35-54 oed yn cael eu dosbarthu fel rhai 'risg cynyddol neu uwch' mae hyn yn cynyddu i tua dwy ran o dair o ddynion yn y grŵp oedran hwn. Yna gwelir gostyngiadau yn y rhai 55+ oed, gyda thua hanner y dynion ac ychydig dros chwarter y menywod. Mae manylion y dadansoddiad yn ôl oedran a rhywedd ar gyfer pob ton o'r arolwg i'w gweld yn nhablau 4.2 – 4.8 yn y ddogfen ddata atodol.

**Ffigur 4: Dosbarthiad risg yfed alcohol yn ôl oedran a rhywedd – Mehefin 2022**




Sylfaen: 1000 o ymatebwyr.

# 3. Ymwybyddiaeth o gynigion a chefnogaeth i gyflwyno isafbris am alcohol

Mae'r adran ganlynol yn adrodd ar ganfyddiadau arolygon 2018 a Mawrth 2020 a'u perthynas â chanfyddiadau blaenorol a adroddwyd ers 2014. Yn benodol, mae'n canolbwyntio ar ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymatebwyr o gynigion ynghylch Isafbris am Alcohol a lefelau cefnogaeth ar gyfer isaf brisiau. Ni ofynnwyd y cwestiynau hyn fel rhan o'r arolygon a gynhaliwyd rhwng Mehefin 2020 a Mehefin 2022.

## 3.1 Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r cynigion

Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr 'Ydych chi'n ymwybodol o gyfreithiau newydd i osod rheolaethau penodol ar bris alcohol sy'n cael ei werthu yng Nghymru?'[16]. Yn gyffredinol, mae ymwybyddiaeth o reolaethau ar bris alcohol wedi cynyddu dros amser gyda thua saith o bob deg o'r ymatebwyr (69 y cant) y siaradwyd â nhw ym mis Mawrth 2020 (yr amser y rhoddwyd y Ddeddf ar waith) yn nodi eu bod yn ymwybodol o gynigion, sy'n uwch na'r ffigurau ar gyfer 2018 a 2014 pan ddywedodd 46 y cant a 47 y cant, yn y drefn honno, eu bod yn ymwybodol o gynigion.


Yn 2014 roedd gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol mewn ymwybyddiaeth fesul grŵp cymdeithasol, gydag ymatebwyr ABC1 yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn ymwybodol o gynigion o'i gymharu ag ymatebwyr C2DE. Er bod hyn yn parhau i fod yn ystadegol arwyddocaol yn 2018, erbyn 2020 roedd y gwahaniaeth hwn mewn ymwybyddiaeth wedi lleihau ac nid oedd bellach yn ystadegol arwyddocaol gyda 72 y cant o ymatebwyr ABC1 yn ymwybodol o gynigion o'i gymharu â 66 y cant o ymatebwyr C2DE. Mae dadansoddiad hefyd yn dangos bod gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol yn ôl oedran yn ymatebion 2020, gyda'r rhai yn y grŵp oedran 16-34 yn llai tebygol o fod yn ymwybodol o gynigion (57 y cant) o'i gymharu â 72 y cant o'r rhai 35-54 oed a 76 y cant o'r rhai 55+ oed. Mae'n werth nodi y gwelwyd gwahaniaeth arwyddocaol tebyg gydag oedran yn nata 2018.

Roedd ymwybyddiaeth hefyd yn sylweddol uwch ymhlith yfwyr na'r rhai nad oeddent yn yfed yn 2020 ond nid yn 2018. Fel y dengys Ffigur 5, yn 2020, roedd 59

[16] Yn 2014 a 2018 geiriad y cwestiwn hwn oedd 'a ydych yn ymwybodol o gynigion newydd i osod rheolaethau penodol ar bris alcohol a werthir yng Nghymru'

y cant o'r rhai nad oeddent yn yfed yn ymwybodol o gynigion, gan godi i 68 y cant o yfwyr risg is, a thri chwarter o yfwyr risg cynyddol neu uwch.

**Ffigur 5: % yr ymatebwyr a oedd yn ymwybodol o unrhyw gynigion i osod rheolaethau ar bris alcohol yn ôl dosbarthiad AUDIT-C**




Sylfaen: 2020 – 713 o ymatebwyr, 2018 – 1015 o ymatebwyr, 2014 – 983 o ymatebwyr.

Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd yn ymwybodol o gynigion i osod rheolaethau ar bris alcohol a werthir yng Nghymru beth oedd eu barn ar y cynigion. Mae Tabl 2 (isod) yn dangos yr ymatebion mwyaf cyffredin, gyda'r ymatebion diweddaraf o 2020 yn dangos bron i ddau o bob pump o'r ymatebwyr (37 y cant) yn dweud y byddai isafbris yn cael ei gyflwyno a thua un o bob pedwar yn dweud y byddai prisiau'n cynyddu. Er bod hyn yn cynrychioli newid bach o ymatebion 2018 lle mai cynyddu pris oedd y ddealltwriaeth fwyaf cyffredin, sef 36 y cant, mae'n werth nodi nad yw'r ffigurau hyn yn annhebyg i'r rhai a adroddwyd yn 2014 lle soniodd 32 y cant am gyflwyno isafbris a 30 y cant yn crybwyll unrhyw gynnydd mewn pris. Gwelir ffigurau 2014 yn nhabl 5.2 yn yr atodiad tablau data cysylltiedig.


**Tabl 2: Beth mae ymatebwyr yn ei feddwl yw'r cynigion ar gyfer rheolaethau prisiau**

| | % o ymatebwyr (2020, Pob ymatebydd sy'n ymwybodol o gynigion i osod rheolaethau ar bris alcohol a werthir yng Nghymru (492)) | % o ymatebwyr (2018, Pob ymatebydd sy'n ymwybodol o gynigion i osod rheolaethau ar bris alcohol a werthir yng Nghymru (465)) |
|---|---|---|
| Unrhyw sôn am gyflwyno isafbris | 37 | 29 |
| Unrhyw sôn am gynyddu pris | 27 | 36 |
| Unrhyw sôn am reoli pris | 6 | 4 |
| Brwydro yn erbyn goryfed mewn pyliau / lleihau meddwdod | 6 | 3 |
| Atal pobl ifanc rhag yfed | 1 | 4 |

Yna dangoswyd disgrifiad o gynnig Llywodraeth Cymru i gyflwyno isafbris am alcohol i'r holl ymatebwyr a gofynnwyd iddynt a oeddent wedi gweld neu glywed unrhyw beth amdano o'r blaen.

Yn 2020 roedd dros ddwy ran o dair o'r ymatebwyr (69 y cant) wedi gweld neu glywed rhywbeth am y cynnig, cynnydd o 49 y cant yn 2018. Yn ogystal ag ymwybyddiaeth gynyddol, fel y dengys ffigur 6, mae'r bwlch ymwybyddiaeth rhwng graddau cymdeithasol hefyd wedi lleihau. Yn 2018 roedd rhai gwahaniaethau mawr rhwng graddau cymdeithasol, gydag ymwybyddiaeth o'r cynnig yn ystadegol arwyddocaol is yn y graddau cymdeithasol DE (36 y cant) ac yn ystadegol arwyddocaol uwch yng ngraddau cymdeithasol AB (66 y cant). Erbyn 2020 roedd y bwlch hwn wedi lleihau i 18 pwynt canran (81 y cant ar gyfer gradd gymdeithasol AB a 63 y cant ar gyfer gradd gymdeithasol DE) ac nid oedd ymatebwyr DE bellach yn gysylltiedig yn ystadegol arwyddocaol ag ymwybyddiaeth is, er bod ymatebwyr AB yn dal yn ystadegol arwyddocaol fwy tebygol o fod yn ymwybodol o'r cynnig.

**Ffigur 6: % yr ymatebwyr a oedd wedi gweld neu glywed unrhyw beth am gynnig isafbris yn ôl gradd gymdeithasol - 2020**




Sylfaen: 2020 – 710 o ymatebion, 2018 – 1011 o ymatebion.

Roedd gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol yn ôl oedran, gyda 59 y cant o bobl 16-34 oed wedi gweld neu glywed rhywbeth am y gyfraith newydd o'i gymharu â 71 y cant o bobl 35-54 oed a 74 y cant o'r rhai 55+ oed. Gwelwyd gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol tebyg yn nadansoddiad 2018 ond gyda niferoedd cyffredinol is. Yn 2018, roedd gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol yn ôl rhywedd hefyd, gyda menywod yn llai tebygol o fod wedi gweld neu glywed rhywbeth am y polisi (45 y cant) na dynion (53 y cant). Fodd bynnag, erbyn 2020 roedd y gwahaniaeth hwn wedi diflannu. Yn ogystal, roedd cyfran ystadegol arwyddocaol uwch o yfwyr risg cynyddol neu uwch (77 y cant) wedi gweld neu glywed rhywbeth am y cynigion na'r rhai â risg is a'r rhai nad ydynt yn yfed (66 a 60 y cant yn y drefn honno). Gwelwyd tuedd debyg hefyd yn 2018.

## 3.2 Cefnogaeth i gynigion isafbris

Yn yr un modd ag ymwybyddiaeth o'r cynigion, mae'r data'n awgrymu bod cefnogaeth i isafbris am alcohol hefyd wedi cynyddu ers 2014. Yn 2020 roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (54 y cant) o blaid y cynnig i gyflwyno isafbris am alcohol; roedd hyn yn uwch nag yn 2014 pan ddywedodd ychydig llai na hanner eu


bod o blaid ond yn is na 2018 pan oedd dros 6 o bob deg o ymatebwyr (62 y cant) o blaid. Yn 2018 a 2020 roedd tua chwarter (26 y cant a 25 y cant yn y drefn honno) o ymatebwyr yn erbyn y cynnig, nid oedd 12 y cant yn gwybod yn 2018 a 21 y cant yn 2020 (Tabl 3).

**Tabl 3: Cefnogaeth ar gyfer isafbris alcohol**

| Amlder | % o ymatebwyr (2020, 713 o ymatebwyr) | % o ymatebwyr (2018, 1,015 o ymatebwyr) | % o ymatebwyr (2018, 1,015 o ymatebwyr) |
|---|---|---|---|
| O blaid | 54 | 62 | 49 |
| Yn erbyn | 25 | 26 | 37 |
| *Ddim yn gwybod* | *21* | *12* | *14* |

Mae dadansoddiad yn ôl dosbarthiad AUDIT-C yn dangos patrwm cyson lle mae cefnogaeth i gynigion isafbris yn ystadegol arwyddocaol is ymhlith yfwyr risg cynyddol neu uwch ar draws 2014, 2018 a 2020. Erbyn 2020, roedd ychydig dros draean o yfwyr risg cynyddol neu uwch (37 y cant) yn erbyn y cynnig o'i gymharu ag un rhan o bump (19 y cant) o yfwyr risg is a 14 y cant o'r rhai nad ydynt yn yfed.

**Ffigur 7: Cefnogaeth i isafbris am alcohol yn ôl dosbarthiad AUDIT-C**




Sylfaen: 2020 – 712 o ymatebwyr, 2018 – 1015 o ymatebwyr, 2014 – 983 o ymatebwyr.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr pam eu bod o blaid, neu yn erbyn, y cynnig i gyflwyno isafbris am alcohol. Rhoddwyd ystod eang o resymau gan y rhai o blaid, a'r rhai

mwyaf cyffredin yn 2020 a 2018 (un o bob pump o ymatebwyr) oedd atal pobl rhag yfed cymaint, goryfed mewn pyliau a meddwdod yn gyffredinol, ac i annog pobl i yfed llai (16 y cant yn 2020 a 10 y cant yn 2018). Gostyngodd y gyfran a oedd yn tynnu sylw at atal pobl ifanc rhag yfed rhwng 2014 a 2018 ac eto rhwng 2018 a 2020. Gwelir y ffigurau sy'n ymwneud â 2014 yn nhabl 5.4 y ddogfen ddata ategol.

**Tabl 4: Rhesymau dros fod O BLAID isafbris am alcohol**

| Ymateb | % o ymatebwyr (2020, 383) | % ymatebwyr (2018, 611) [a] |
|---|---|---|
| Atal pobl rhag yfed cymaint / rhoi'r gorau i oryfed mewn pyliau / meddwdod | 22 | 18 |
| Annog pobl i yfed llai | 16 | 10 |
| Atal pobl ifanc rhag yfed | 5 | 10 |
| Atal pobl ifanc rhag yfed cymaint / atal pobl ifanc rhag goryfed mewn pyliau / meddwdod | 5 | 9 |
| Alcohol yn rhy rhad | 7 | 9 |
| Gwell i iechyd | 5 | 7 |
| Lleihau alcoholiaeth / camddefnydd alcohol | 9 | 6 |
| Alcohol ar gael yn rhy hawdd i bobl ifanc / ei gwneud yn anos i bobl ifanc ei brynu | 3 | 5 |
| | **Ymatebion eraill a adroddwyd gan lai na 5 y cant o ymatebwyr [b]** | |
| | Atal / annog troseddu | |
| | Atal / annog ymddygiad gwrthgymdeithasol | |
| | Atal pobl rhag yfed | |
| | Bydd yn helpu / syniad da (amhenodol) | |
| | Ddim yn yfed / ni fyddai'n effeithio arnaf | |
| | Gwell i dafarndai / tegwch | |
| | Helpu adnoddau'r GIG | |
| | Lleihau problemau cysylltiedig ag alcohol (amhenodol) | |
| | Mae alcohol ar gael yn rhy hawdd | |
| | Mae alcohol yn rhy rhad i bobl ifanc / gwnewch e'n ddrutach i bobl ifanc ei brynu | |
| | Stopio archfarchnadoedd rhag ei werthu'n rhy rhad | |

Sylfaen: Pob ymatebydd o blaid isafbris (2020 – 383, 2018 – 611).
(a) Roedd yr ymatebwyr yn cael rhoi mwy nag un ateb.
(b) Cyflwynir ymatebion 'eraill' yn nhrefn yr wyddor.

Ar gyfer ymatebwyr a oedd yn erbyn y cynnig i gyflwyno isafbris, y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd oedd nad oeddent yn meddwl y byddai'n gwneud unrhyw wahaniaeth i faint mae pobl yn ei yfed. Mae'r gyfran sy'n nodi hyn wedi aros yn

sefydlog ar tua chwarter yr ymatebwyr yn 2020 a 2018 yn gyson â'r ffigur a adroddwyd yn 2014. Mae'n werth nodi bod rhesymau'n ymwneud â chost wedi codi o 12 y cant yn 2018 i chwarter yr ymatebwyr yn 2020. Gwelir y ffigurau sy'n ymwneud â 2014 yn nhabl 5.5 y ddogfen ddata ategol.

**Tabl 5: Rhesymau dros fod YN ERBYN isafswm pris**

| Ymateb | % o ymatebwyr (2020, 178) | % o ymatebwyr (2018, 259) [a] |
|---|---|---|
| Ni fydd yn atal pobl rhag yfed /ddim yn gweithio / ddim yn gwneud unrhyw wahaniaeth | 26 | 24 |
| Byddai'n costio mwy / yn ei wneud yn rhy ddrud / methu ei fforddio | 25 | 12 |
| Dewis unigol / rhydd i bobl ddewis beth maen nhw'n ei yfed | 8 | 9 |
| Annheg ar yfwyr cymedrol / cyfrifol | 12 | 9 |
| Digon o gostau ar hyn o bryd / Eisoes yn ddrud | 1 | 9 |
| Annheg i'r rhai ar incwm isel / y rhai sy'n dlotach | 12 | 7 |
| Dim ond refeniw treth ar gyfer y llywodraeth / cynllun gwneud arian | 5 | 6 |
| Bydd yn achosi dwyn o siopau / trosedd | 1 | 6 |
| Bydd pobl yn troi at gyffuriau / dewisiadau amgen mwy peryglus | 1 | 5 |
| | **Ymatebion eraill a adroddwyd gan lai na 5 y cant o ymatebwyr [b]** | |
| | Annheg (amhenodol) | |
| | Bydd llawer yn dioddef oherwydd gweithredoedd ychydig o bobl | |
| | Byddai addysgu yn well | |
| | Credu mewn cystadleuaeth / busnes gosod eu prisiau eu hunain | |
| | Yn cosbi'r bobl anghywir | |

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr yn erbyn isafbris (2020 – 178, 2018 – 259).
(a) Roedd yr ymatebwyr yn cael rhoi mwy nag un ateb.
(b) Cyflwynir ymatebion 'eraill' yn nhrefn yr wyddor.

## 4. Canfyddiadau am effaith Isafswm Pris Alcohol


Yn yr un modd â'r adran flaenorol, mae'r canfyddiadau hyn yn perthyn i ddata arolygon 2018 a Mawrth 2020 a'u perthynas â chanfyddiadau blaenorol a adroddwyd yn 2014. Fel rhan o'r arolygon hyn, gofynnwyd i'r holl ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol ynghylch codi pris alcohol mewn archfarchnadoedd, siopau trwyddedig a siopau cyfleustra:

- Byddai codi pris y cynnyrch alcohol rhatach yn y siopau hyn yn helpu i leihau trosedd yn y wlad hon
- Byddai codi pris y cynnyrch alcohol rhatach yn y siopau hyn yn helpu i leihau afiechyd yn y wlad hon
- Ni fyddai codi pris y cynnyrch alcohol rhatach yn y siopau hyn yn gwneud unrhyw wahaniaeth i faint mae pobl yn ei yfed
- Mae faint mae rhywun yn ei yfed yn ddewis personol ac ni ddylai'r llywodraeth ymyrryd

Ni ofynnwyd y cwestiynau hyn fel rhan o'r arolygon a gynhaliwyd rhwng Mehefin 2020 a Mehefin 2022.

Mae Ffigur 8, isod, yn dangos bod cyfran uwch o ymatebwyr yn 2020 yn cytuno y byddai codi pris cynhyrchion alcohol rhatach yn y siopau hyn 'yn lleihau afiechyd' (50 y cant yn cytuno) nag 'yn lleihau trosedd' (35 y cant yn cytuno). Mae lefelau cytundeb â'r ddau ddatganiad wedi amrywio ers 2014 ond roedd ar eu huchaf yn 2018 pan gytunodd 55 y cant y byddai codi pris alcohol rhatach yn lleihau afiechyd a 41 y cant yn cytuno y byddai'n lleihau troseddu. O ran cytuno â'r datganiadau 'na fyddai'n gwneud unrhyw wahaniaeth i faint mae pobl yn ei yfed' ac 'na ddylai'r llywodraeth ymyrryd', mae lefelau cytundeb â'r ddau ddatganiad wedi gostwng ers 2014. Yn 2020, roedd 45 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno 'na fyddai'n gwneud unrhyw wahaniaeth i faint mae pobl yn ei yfed', tra bod ychydig llai na hanner yr ymatebwyr (48 y cant) yn cytuno 'na ddylai'r llywodraeth ymyrryd'. Mae'r adrannau canlynol yn manylu ar wahaniaethau mewn lefelau cytundeb fesul rhanbarth a nodweddion yr ymatebwyr (eu hoedran, rhywedd, dosbarth cymdeithasol a dosbarthiad AUDIT-C).

**Ffigur 8: Codi pris cynnyrch alcohol rhatach (a)**




Sylfaen: 2020 – 713 o ymatebwyr, 2018 – 1015 o ymatebwyr, 2014 – 1012 o ymatebwyr.
(a) Mae'r categori 'Cytuno' yn cynnwys 'Cytuno'n gryf' a 'Cytuno'. Mae'r categori 'Anghytuno' yn cynnwys 'Anghytuno'n gryf' ac 'Anghytuno'. Mae'r categori 'niwtral' yn cynnwys 'Ddim yn cytuno nac yn anghytuno' a 'Ddim yn gwybod'.


### 4.1 Byddai codi pris y cynnyrch alcohol rhatach yn y siopau hyn yn helpu i leihau trosedd yn y wlad hon

Roedd gwahaniaethau rhanbarthol yn cytuno â'r datganiad 'Byddai codi pris y cynhyrchion alcohol rhatach yn y siopau hyn yn helpu i leihau trosedd yn y wlad hon'. Yn 2020 roedd cyfran uwch o ymatebwyr yng Ngogledd Cymru a Chanolbarth a De-orllewin Cymru yn anghytuno y byddai codi'r pris yn lleihau trosedd. Fodd bynnag, yn y Cymoedd a'r De-ddwyrain, nid oedd llawer o wahaniaeth rhwng y cyfrannau a oedd yn cytuno neu'n anghytuno. Mae ffigurau ar wahân ar gyfer 2014, 2018 a 2020 i'w gweld yn nhablau 6.1 a 6.2 y ddogfen tablau data ategol.

Yn 2018 a 2020, roedd perthynas ystadegol arwyddocaol rhwng dosbarthiad AUDIT-C a chytundeb â'r datganiad y byddai 'codi pris y cynhyrchion alcohol rhatach yn y siopau hyn yn helpu i leihau trosedd yn y wlad hon'. Yn 2020 roedd llawer llai o yfwyr risg cynyddol neu uwch yn cytuno â'r datganiad (27 y cant) o'i

gymharu ag yfwyr risg is a'r rhai nad ydynt yn yfed (40 y cant a 43 y cant, yn y drefn honno). Mae hyn yn debyg i ganfyddiadau 2014 a 2018 fel y gwelir yn Ffigur 9.

**Ffigur 9: 'Byddai codi pris cynnyrch alcohol rhatach yn lleihau trosedd' yn ôl dosbarthiad AUDIT-C**




Sylfaen: 2020 – 714 o ymatebwyr, 2018 – 1014 o ymatebwyr, 2014 – 983 o ymatebwyr.

Yn 2020 a 2018, nid oedd unrhyw wahaniaethau ystadegol arwyddocaol yn ôl rhywedd, dosbarth cymdeithasol nac oedran. Mae'n werth nodi bod y dadansoddiad yn 2014 wedi canfod gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol yn ôl oedran gyda'r rhai yn y grŵp oedran 55+ yn fwy tebygol o gytuno y byddai'n lleihau trosedd, yn nadansoddiad 2018 a 2020 roedd lefel y cytundeb ar draws grwpiau oedran yn lled debyg.

## 4.2 Byddai codi pris y cynnyrch alcohol rhatach yn y siopau hyn yn helpu i leihau afiechyd yn y wlad hon


Roedd mân wahaniaethau rhanbarthol o ran cytuno ac anghytuno â'r datganiad 'Byddai codi pris y cynhyrchion alcohol rhatach yn y siopau hyn yn helpu i leihau afiechyd yn y wlad hon' er nad oedd y gwahaniaethau hyn yn ystadegol arwyddocaol yn 2020 a 2018.

Yn 2020 cytunodd cyfran uwch o ymatebwyr y byddai codi'r pris yn lleihau afiechyd nag a oedd yn anghytuno â'r datganiad ar draws pob rhanbarth. Roedd cytundeb â'r datganiad yn gymharol gyson ar draws y rhanbarthau yn amrywio o 54 y cant yn y Cymoedd a De-ddwyrain Cymru i 49 y cant yng Ngogledd Cymru. O ran tueddiadau

dros amser mae'r lefel hon o gytundeb wedi aros yn gymharol sefydlog dros y tri chyfnod arolwg fel y gwelir yn nhablau 6.3 a 6.4 yn yr atodiad data cyfagos sy'n cynnwys y ffigurau ar gyfer cytuno fesul rhanbarth ar gyfer pob arolwg.

Yn 2018 a 2020, roedd perthynas ystadegol arwyddocaol rhwng dosbarthiad AUDIT-C a chytundeb â'r datganiad y byddai 'Codi pris y cynhyrchion alcohol rhatach yn y siopau hyn yn helpu i leihau afiechyd yn y wlad hon'. Fel y dengys Ffigur 10, ar draws yr holl flynyddoedd roedd cyfran uwch o'r rhai nad ydynt yn yfed ac yfwyr risg is yn cytuno y byddai codi'r pris yn lleihau afiechyd. Fodd bynnag, mae mwy o amrywiad i'w weld gyda'r yfwyr risg cynyddol neu uwch hynny. Yn 2014 roeddent yn fwy tebygol o anghytuno, yn 2018 a 2020 roeddent yn fwy tebygol o gytuno, er mai ychydig yn unig oedd hynny yn 2020, gyda 43 y cant yn cytuno a 38 y cant yn anghytuno â'r datganiad.

**Ffigur 10: 'Byddai codi pris cynnyrch alcohol rhatach yn lleihau afiechyd' yn ôl dosbarthiad AUDIT-C**




Sylfaen: 2020 – 715 o ymatebwyr, 2018 – 1014 o ymatebwyr, 2014 – 983 o ymatebwyr.


Nid oedd unrhyw wahaniaethau ystadegol arwyddocaol yn ôl rhywedd neu ddosbarth cymdeithasol yn 2018 a 2020 sy'n gyson â'r dadansoddiad o 2014. Er y bu gwahaniaeth sylweddol yn ôl oedran yn 2014, roedd y gwahaniaeth hwn wedi diflannu i raddau helaeth yn 2018 a 2020. Yn 2018 a 2020 mae cynnydd mewn cytundeb yn y grŵp oedran 16-34 (54 y cant ohonynt yn cytuno â'r datganiad yn 2020 o'i gymharu â 44 y cant yn 2014) wedi dod â nhw yn fras yn unol â'r rhai 35-55 a 55+ oed.

4.3 **Ni fyddai codi pris y cynnyrch alcohol rhatach yn y siopau hyn yn gwneud unrhyw wahaniaeth i faint mae pobl yn ei yfed**

Ar draws yr holl ranbarthau, roedd cyfran uwch o ymatebwyr yn cytuno â’r datganiad ‘na fyddai codi pris cynhyrchion alcohol rhatach yn gwneud unrhyw wahaniaeth i faint mae pobl yn ei yfed’ nag a anghytunodd. Yn 2020 roedd y gyfran a oedd yn cytuno â’r datganiad hwn yn amrywio o 41 y cant yng Ngogledd Cymru i 50 y cant yn y Canolbarth a’r De-orllewin, tra bod yr anghytundeb yn amrywio o 31 y cant yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru i 39 y cant yn y Cymoedd a De-ddwyrain Cymru. Mae’r ffigurau ar wahân ar gyfer 2014, 2018 a 2020 i’w gweld yn nhablau 6.5 a 6.6 y ddogfen tablau data ategol.

Yn 2020 roedd perthynas arwyddocaol rhwng dosbarthiad AUDIT-C a chytundeb â’r datganiad ‘ni fyddai codi pris cynhyrchion alcohol rhatach yn gwneud unrhyw wahaniaeth i faint mae pobl yn ei yfed’, gydag yfwyr risg cynyddol a risg uwch yn fwy tebygol o gytuno. Ni welwyd gwahaniaethau sylweddol yn nadansoddiad 2018.

**Ffigur 11: ‘Ni fyddai codi pris cynhyrchion alcohol rhatach yn gwneud unrhyw wahaniaeth i faint mae pobl yn ei yfed’ yn ôl dosbarthiad AUDIT-C**




Sylfaen: 2020 - 714 o ymatebwyr, 2018 - 1015 o ymatebwyr, 2014 - 983 o ymatebwyr.

Fel y dengys Ffigur 11 mae lefelau cytundeb ar draws grwpiau AUDIT-C wedi aros yn gymharol sefydlog rhwng 2014 a 2020, er bod gostyngiad bach yn y cytundeb ymhlith y rhai a nodwyd fel risg is. Mae cyfran y rhai nad ydynt yn yfed ac yfwyr risg

is sy’n anghytuno â’r datganiad wedi cynyddu ychydig o tua thri o bob deg o ymatebwyr yn 2014 a 2018 i bedwar o bob deg o ymatebwyr yn 2020.

Wrth ystyried gwahaniaethau mewn lefelau cytundeb yn ôl oedran, rhywedd a dosbarth cymdeithasol bu rhywfaint o amrywiad rhwng blynyddoedd. Gan ddechrau gyda rhywedd, nid oedd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol yn 2018 a 2020 gyda chyfran y dynion a oedd yn cytuno â’r datganiad yn weddol debyg i fenywod. Mae hyn yn wahanol i 2014 lle'r oedd dynion yn ystadegol arwyddocaol fwy tebygol o gytuno â’r datganiad na fyddai’n gwneud unrhyw wahaniaeth i faint mae pobl yn ei yfed.

O ran oedran, yn 2014 ni nodwyd unrhyw wahaniaethau ystadegol arwyddocaol, ond yn 2018 canfuwyd perthynas arwyddocaol. Roedd y rhai yn y grŵp oedran 55+ yn fwy tebygol o gytuno â’r datganiad (53 y cant) o’i gymharu â’r rhai yn y grwpiau oedran 16-34 a 35-54 (46 y cant a 44 y cant yn y drefn honno). Erbyn 2020 nid oedd gwahaniaeth sylweddol bellach yn ôl oedran.


Yn olaf o ran gradd gymdeithasol, ni nodwyd unrhyw berthnasoedd o arwyddocâd ystadegol yn 2014 a 2018. Roedd yna, fodd bynnag, wahaniaeth ystadegol arwyddocaol yn ôl gradd gymdeithasol yn 2020 gyda 49 y cant o’r rhai o radd gymdeithasol C2DE yn cytuno na fyddai codi’r pris yn gwneud unrhyw wahaniaeth i faint mae pobl yn ei yfed, o’i gymharu â 43 y cant o’r rheini yn y radd ABC1.

### 4.4 Mae faint mae rhywun yn ei yfed yn ddewis personol ac ni ddylai’r llywodraeth ymyrryd

Ar draws pob rhanbarth, roedd cyfran uwch o ymatebwyr yn cytuno bod ‘Faint mae rhywun yn ei yfed yn ddewis personol ac na ddylai’r llywodraeth ymyrryd’ nag a anghytunodd â’r datganiad er ei bod yn ymddangos bod y gyfran sy’n cytuno â’r datganiad ar draws yr holl ranbarthau yn gostwng dros amser. Yn 2020 roedd lefelau cytundeb yn amrywio o 41 y cant i 50 y cant, tra bod y ffigurau ar gyfer 2014 yn amrywio o 49 i 65 y cant. I’r gwrthwyneb, ac fel y gellid disgwyl, mae lefelau anghytuno â’r datganiad wedi cynyddu ar draws pob rhanbarth fel y gwelir yn nhablau 6.7 a 6.8 o’r tablau data cysylltiedig sy’n cynnwys yr ystod lawn o ffigurau o 2014-2020.

Roedd perthynas arwyddocaol rhwng dosbarthiad AUDIT-C a chytundeb â'r datganiad bod 'faint mae rhywun yn ei yfed yn ddewis personol ac ni ddylai'r llywodraeth ymyrryd'. Fel y dengys Ffigur 12, mae patrwm cyson ar draws y blynyddoedd lle mae cytundeb â'r datganiad yn ystadegol arwyddocaol uwch ymhlith yfwyr risg cynyddol neu uwch na'r rhai â risg is a'r rhai nad ydynt yn yfed. Yn 2020, roedd 43 y cant o'r rhai nad ydynt yn yfwyr ac yfwyr risg is yn cytuno â'r datganiad, a gododd i 56 y cant ymhlith yfwyr risg cynyddol neu uwch. Mae'n werth nodi bod y gyfran sy'n cytuno â'r datganiad wedi gostwng ers 2014 ar draws y tri grŵp.

**Ffigur 12: 'Mae faint mae rhywun yn ei yfed yn ddewis personol ac ni ddylai'r llywodraeth ymyrryd' gan ddosbarthiad AUDIT-C**




Sylfaen: 2020 – 713 o ymatebwyr, 2018 – 1014 o ymatebwyr, 2014 – 983 o ymatebwyr.

Yn yr un modd â dadansoddiad 2014, nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn ôl oedran yn 2018 a 2020, fodd bynnag, canfuwyd gwahaniaethau sylweddol yn ôl rhywedd yn 2020 ac yn ôl dosbarth cymdeithasol yn 2018 a 2020. Yn 2020 roedd cyfran uwch o ddynion (53 y cant) na menywod (44 y cant) yn cytuno bod 'faint mae rhywun yn ei yfed yn ddewis personol ac na ddylai'r llywodraeth ymyrryd', patrwm tebyg i 2014. Yn nadansoddiad 2018, nid oedd llawer o wahaniaeth rhwng dynion a menywod, gyda 51 y cant o ddynion yn cytuno a 52 y cant o fenywod. O ran dosbarth cymdeithasol, bu tuedd gyson ar draws y tair blynedd gyda chyfran uwch o

ymatebwyr C2DE yn cytuno â'r datganiad (54 y cant yn 2020) nag ymatebwyr ABC1 (43 y cant yn 2020).

## 5. Trafodaeth

Cynhaliwyd yr arolwg hwn gyntaf yn 2014 i gael gwell dealltwriaeth o agweddau'r cyhoedd yng Nghymru at alcohol ac isafbris ac i ategu gwaith modelu a wnaed gan Brifysgol Sheffield (Meng et al, 2014). Cyflwynwyd deddfwriaeth ar gyfer cyflwyno Isafbris am Alcohol yng Nghymru yn 2018 a'i rhoi ar waith ym mis Mawrth 2020. Mae'r adroddiad hwn yn darparu canfyddiadau o arolygon dilynol sy'n cynnig mewnwelediad pwysig i farn y cyhoedd ar dderbynioldeb isafbris, canfyddiadau o'i effaith debygol ar yfed, ac agweddau eraill at alcohol ac ymyrraeth y llywodraeth yn y maes hwn a sut y gallai'r rhain fod wedi newid dros amser. Yn yr un modd â'r arolwg cyntaf, mae'r adroddiad hwn yn rhan o sylfaen dystiolaeth ehangach gan gynnwys gwaith parhaus i ystyried gweithrediad ac effaith Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 drwy nifer o astudiaethau a gomisiynwyd ar gyfer y gwerthusiad.

Mae rhai cyfyngiadau a chafeatau gyda'r ymchwil i'w nodi. Er y gwneir cymariaethau rhwng data o 2014, 2018 a 2020, mae angen bod yn ofalus wrth ddehongli. Ni ellir dweud yn bendant fod newidiadau mewn agweddau a adroddir rhwng blynyddoedd yn ganlyniad i newid mewn agweddau cyhoeddus gan na ellir diystyru bod gwahaniaethau rhwng blynyddoedd yn arteffact o'r sampl y siaradwyd â hi ym mhob blwyddyn. Ceir hefyd y mater o ragfarn dymunoldeb cymdeithasol (Davies et al, 2010[17]) a thuedd adalw (Stockwell et al., 2004[18]) y mae angen eu hystyried o ystyried eu perthnasedd arbennig i'r trafodaethau ynghylch yfed alcohol a'r defnydd o ddulliau cyfweld wyneb yn wyneb. Gall y rhagfarnau hyn ddod i'r amlwg mewn gwahanol ffyrdd i wahanol ymatebwyr ond dylid ystyried y posibilrwydd o adroddiadau rhy isel neu oramcangyfrif o yfed alcohol wrth edrych ar y canfyddiadau. Mae arolygon eraill, megis Arolwg Cenedlaethol Cymru, yn darparu

[17] Social desirability biases in self-reported alcohol consumption and harms - PubMed (nih.gov)
[18] Under-reporting of alcohol consumption in household surveys: a comparison of quantity-frequency, graduated-frequency and recent recall - PubMed (nih.gov)

data ar arferion yfed pobl ac yn bwynt cymharu defnyddiol, er y bydd gwahaniaethau pwysig rhwng ffynonellau y dylid eu hystyried wrth wneud cymariaethau.

***Ymddygiad yfed***

O ran ymddygiad yfed bu rhai newidiadau. Mae tystiolaeth bod ymatebwyr yn yfed yn amlach ond yn yfed llai o unedau pan fyddant yn yfed. Mae nifer y rhai nad ydynt yn yfed wedi gostwng o tua 26 y cant yn 2014 i 10 y cant yn 2022. Er bod y gyfran sy'n dweud eu bod yn yfed o leiaf 2-3 gwaith yr wythnos wedi cynyddu o 28 y cant yn 2014 i 38 y cant ym mis Mehefin 2022. Yn y cyfamser mae'r gyfran sy'n yfed 1-2 uned ar ddiwrnod arferol wedi cynyddu o 29 y cant yn 2014 i 37 y cant ym mis Mehefin 2022. I'r gwrthwyneb, mae'r gyfran sy'n yfed 10 uned neu fwy ar ddiwrnod arferol o yfed wedi gostwng o 20 y cant yn 2014 i 13 y cant ym mis Mehefin 2022.

O ran amlder goryfed mewn pyliau, mae'r cyfrannau sy'n yfed ar y lefel honno yn 'llai na misol' ac 'o leiaf bob wythnos' wedi aros yn gymharol sefydlog rhwng 2014 a Mehefin 2022 er bod cyfran y bobl sy'n dweud nad ydynt byth yn yfed ar y lefel hon wedi gostwng o tua thraean yr ymatebwyr yn 2014 i ychydig dros chwarter ym mis Mehefin 2022. Mae'r gyfran y nodwyd eu bod yn wynebu risg gynyddol neu uwch wedi cynyddu o 38 y cant yn 2014 i 45 y cant ym mis Mehefin 2022. Roedd dynion yn parhau i fod yn fwy tebygol o gael eu nodi fel yfwyr risg cynyddol neu uwch, yn gyson â chanfyddiadau eraill megis Model Polisi Alcohol Sheffield (Meier, et al, 2021)[19] a chanlyniadau o Arolwg Cenedlaethol Cymru[20][21].

***Ymwybyddiaeth o Isafbris am Alcohol***

O ystyried ymatebion rhwng 2014 a 2020, bu ymwybyddiaeth gynyddol o fesurau i gyflwyno isafbris am alcohol. Roedd ymatebwyr a nodwyd fel rhai â 'risg cynyddol ac uwch' yn fwy tebygol o fod yn ymwybodol o isafbris am alcohol na phobl nad ydynt yn yfed. Mae dadansoddiad hefyd yn dangos bod ymwybyddiaeth o isafbris

[19] Alcohol policy and gender: a modelling study estimating gender-specific effects of alcohol pricing policies - Meier - 2021 - Addiction - Wiley Online Library)
[20] Arolwg Cenedlaethol Cymru: dangosydd canlyniadau | LLYW.CYMRU
[21] Mae'n werth nodi, er bod dynion yn fwy tebygol o gael eu categoreiddio fel yfwyr risg uwch yng nghanfyddiadau Arolwg Cenedlaethol Cymru, eu bod wedi defnyddio dull gwahanol i gategoreiddio lefelau yfed uwch a'u bod yn defnyddio'r un nifer o unedau fel trothwy ar gyfer dynion a menywod yn wahanol i fethodoleg AUDIT-C.

yn sylweddol is ymhlith y rhai 16-34 oed. Nid yw'r ymwybyddiaeth gynyddol o isafbrisiau ers 2014 yn syndod o ystyried cyflwyno'r ddeddfwriaeth yn 2018 a'i gweithredu ddwy flynedd yn ddiweddarach yn 2020. At hynny, roedd amseriad y gwaith maes yn 2020 yn cyd-fynd â chyflwyno isafbris ac ymgyrch farchnata pythefnos o hyd. Yn yr un modd byddai disgwyl mwy o ymwybyddiaeth o yfwyr 'risg cynyddol a risg uwch' nag yfwyr risg is gan eu bod yn fwy tebygol o gael eu heffeithio gan gyflwyno isafbris, fel y nodwyd hefyd gan Buhociu et al (2021).[22]

***Cefnogaeth ar gyfer Isafbris am Alcohol***

O ystyried yr ymwybyddiaeth gynyddol hon o isafbris, mae'n werth nodi, fel yn achos 2014, i arolygon 2018 a 2020 ganfod bod cyfran uwch o ymatebwyr o blaid cyflwyno isafbris am alcohol. Yn 2020 roedd ymatebwyr ddwywaith yn fwy tebygol o fod o blaid isafbris nag yn erbyn (54 y cant o blaid a 25 y cant yn erbyn). Ar ben hynny, o edrych ar draws y blynyddoedd mae'n ymddangos y bu cynnydd cyffredinol yn y gefnogaeth a gostyngiad yn y gwrthwynebiad ers 2014. Roedd y gwrthwynebiad i gyflwyno isafbris am alcohol ar ei uchaf ymhlith yr yfwyr 'risg cynyddol a risg uwch' hynny, gan adlewyrchu mai nhw sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan ei gyflwyno, ond hyd yn oed yma mae gwrthwynebiad iddo wedi gostwng dros amser. Mae'n werth nodi hefyd bod y canfyddiadau hyn ynghylch cefnogaeth i isafbris yn gyson â gwaith tebyg a wnaed yn yr Alban a ganfu hefyd lefel gynyddol o gefnogaeth i'r polisi (Ferguson et al., 2020)[23].

Un esboniad posibl am y lefel gynyddol o gefnogaeth ar gyfer isafbris yw y gallai'r lefelau cynyddol o ymwybyddiaeth o'r polisi fod yn gwella camsyniadau am ei effaith ganfyddedig. Adlewyrchir hyn i raddau yn y ddealltwriaeth a adroddwyd gan bobl o'r cynigion lle mae'r gyfran sy'n ei ddeall fel 'cyflwyniad o isafbris' wedi cynyddu tra bod y gyfran sy'n cyfeirio at gynnydd mwy cyffredinol mewn prisiau wedi gostwng.

***Canfyddiadau o effeithiau Isafbris am Alcohol***

Pan ofynnwyd am ganfyddiadau o effeithiau isafbris am alcohol, arhosodd y cyfrannau a oedd yn cytuno â'r datganiadau y byddai'n lleihau trosedd neu'n lleihau problemau afiechyd yn gymharol sefydlog ar draws y tri arolwg, gyda chyfran uwch

[22] Asesu Effaith Isafbris am Alcohol ar Boblogaeth Ehangach o Yfwyr - Gwaelodlin
[23] Public attitudes to Minimum Unit Pricing (MUP) for alcohol in Scotland (publichealthscotland.scot)

yn disgwyl iddo leihau afiechyd nag lleihau trosedd. Er bod cyfran uwch o ymatebwyr yn dal i gytuno â datganiadau ar gynnydd mewn prisiau nad ydynt yn gwneud unrhyw wahaniaeth i faint mae pobl yn ei yfed a faint mae rhywun yn ei yfed yn ddewis personol na ddylai'r llywodraeth ymyrryd ag ef, mae'r gyfran sy'n cytuno â'r ddau ddatganiad hyn wedi gostwng rhwng 2014 a 2020. Yn gyson â'r ymatebion eraill, roedd ymatebwyr a oedd yn yfwyr 'risg cynyddol neu risg uwch' yn fwy tebygol o anghytuno y byddai isafbris yn lleihau trosedd a phroblemau iechyd gwael ac yn fwy tebygol o gytuno na fyddai'n gwneud unrhyw wahaniaeth i arferion yfed pobl ac na ddylai'r llywodraeth ymyrryd.

## Atodiad A: Methodoleg

Mae sampl Arolwg Omnibws Cymru wedi'i gynllunio i gynrychioli'r boblogaeth 16 oed a hŷn sy'n byw yng Nghymru. Yr uned samplu yw Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) a dewisir 69 o bwyntiau cyfweld ledled Cymru gyda thebygolrwydd yn gymesur â'r boblogaeth breswyl, ar ôl haenu fesul awdurdod unedol a gradd gymdeithasol.

O fewn pob pwynt samplu, defnyddir rheolaethau cwota demograffig plethedig o oedran a dosbarth cymdeithasol o fewn rhywedd ar gyfer dethol ymatebwyr. Gosodir cwotâu i adlewyrchu proffil demograffig unigol pob pwynt a ddewiswyd.

Mae'r data wedi'u pwysoli yn ôl grŵp oedran o fewn rhywedd o fewn grŵp awdurdodau unedol i roi'r achosion cywir i bob cell o fewn cyfanswm Cymru sy'n deillio o ganlyniadau Cyfrifiad 2011.

Dewisir sampl newydd o leoliadau cyfweld ac unigolion ar gyfer pob arolwg ac ni chyfwelir mwy nag un unigolyn o bob cartref. Cynhaliwyd cyfweliadau ar gyfer arolygon 2014, 2018 a Mawrth 2020 wyneb yn wyneb yng nghartrefi ymatebwyr gan ddefnyddio technoleg CAPI (Cyfweliadau Personol â Chymorth Cyfrifiadur). Cynhaliwyd yr arolygon rhwng mis Mehefin 2020 a mis Mehefin 2022 ar-lein gan ddefnyddio platfform cyfnewid panel ar-lein Cint sydd wedi'i ffurfweddu ar gyfer PC, llechen a ffôn clyfar.

Yn 2018 cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r gwaith maes rhwng 17 a 30 Medi 2018, a chynhaliwyd ychydig o gyfweliadau ar ôl y dyddiad hwn. Cynhaliwyd a dadansoddwyd cyfanswm o 1,015 o gyfweliadau wyneb yn wyneb ar gyfer yr arolwg hwn.

Ym mis Mawrth 2020 cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r gwaith maes rhwng 24 Chwefror a 15 Mawrth 2020. Cynhaliwyd a dadansoddwyd cyfanswm o 713 o gyfweliadau wyneb yn wyneb ar gyfer yr arolwg hwn. Nid oedd gwaith maes yn gallu parhau i gyrraedd y targed o 1,000 o faint sampl oherwydd achosion o'r coronafeirws a chyflwyno mesurau cadw pellter cymdeithasol a arweiniodd at atal gwaith maes wyneb yn wyneb.

Cynhaliwyd arolwg mis Mehefin 2020 rhwng 10 a 22 Mehefin 2020 a chafwyd cyfanswm o 1000 o ymatebion. Cynhaliwyd arolwg mis Tachwedd 2020 rhwng 9 a 29 Tachwedd 2020 a chafwyd cyfanswm o 1002 o ymatebion. Cynhaliwyd arolwg mis Mehefin 2021 rhwng 14 a 27 Mehefin 2021 a chafwyd cyfanswm o 1000 o ymatebion. Cynhaliwyd arolwg mis Tachwedd 2021 rhwng 8 a 28 Tachwedd 2021 a chafwyd cyfanswm o 1000 o ymatebion. Cynhaliwyd arolwg mis Mehefin 2022 rhwng 6 a 26 Mehefin 2022 a chafwyd cyfanswm o 1000 o ymatebion.

### Samplu cwota cymesur

Pan fydd data arolygon yn cael eu profi ar gyfer arwyddocâd ystadegol, rhagdybir bod y sampl a gyflawnwyd yn cynrychioli sampl ar hap o'r boblogaeth berthnasol. Serch hynny,

gan fod Arolwg Omnibws Cymru yn defnyddio samplu cwota cymesurol (nid samplu ar hap), ni ellir, a dweud y gwir, sefydlu arwyddocâd ystadegol gwirioneddol[24]. Felly, pan ddisgrifir gwahaniaeth rhwng dau is-grŵp fel un 'sylweddol' yn yr adroddiad hwn, mae hyn yn cyfeirio at wahaniaeth ffug-ystadegol arwyddocaol ar y lefel hyder o 95 y cant. Mae hyn yn golygu, pe bai'r arolwg yn defnyddio sampl ar hap, byddai'r tebygolrwydd o gael y canfyddiad ar hap yn llai nag un o bob 20.

**Dadansoddiad Chi-sgwâr**

Defnyddiwyd y prawf chi-sgwâr yn y dadansoddiad i bennu a yw perthynas a arsylwyd rhwng dau newidyn categorïaidd yn y sampl (h.y. y 713 o gyfweleion yn 2020) yn debygol o adlewyrchu cysylltiad gwirioneddol yn y boblogaeth (h.y. y boblogaeth oedolion sy'n byw yng Nghymru 16 oed a throsodd).

**Diffiniad o ranbarthau**

Mae Tabl A.1 isod yn dangos pa awdurdodau unedol yng Nghymru sy'n ffurfio'r rhanbarthau a ddefnyddiwyd yn nadansoddiad 2014 a 2018 tra bod Tabl A.2, y dudalen nesaf, yn dangos pa Awdurdodau Lleol yng Nghymru sy'n ffurfio'r rhanbarthau yn nadansoddiad 2020.

[24] Gschwend, T (2005). Analyzing Quota Sample Data and the Peer-review Process. *French Politics*, 2005, 3, (88–91).

**Tabl A.1: Diffiniad o ranbarthau 2018**

| Rhanbarth | Awdurdodau unedol |
|---|---|
| Gogledd Cymru | Ynys Môn<br>Gwynedd<br>Conwy<br>Sir Ddinbych<br>Sir y Fflint<br>Wrecsam |
| Canolbarth a Gorllewin Cymru | Ceredigion<br>Powys<br>Sir Benfro<br>Sir Gâr |
| Bae Abertawe | Abertawe<br>Castell-nedd Port Talbot<br>Pen-y-bont ar Ogwr |
| Y Cymoedd | Rhondda Cynon Taf<br>Merthyr Tudful<br>Caerffili<br>Blaenau Gwent |
| Caerdydd a De Ddwyrain Cymru | Bro Morgannwg<br>Caerdydd<br>Casnewydd<br>Torfaen<br>Sir Fynwy |

**Tabl A.2: Diffiniad o ranbarthau 2020**

| Rhanbarth | Awdurdodau unedol |
|---|---|
| Gogledd Cymru | Ynys Môn<br>Gwynedd<br>Conwy<br>Sir Ddinbych<br>Sir y Fflint<br>Wrecsam |
| Canolbarth a De-orllewin Cymru | Ceredigion<br>Powys<br>Sir Benfro<br>Sir Gâr<br>Abertawe<br>Castell-nedd Port Talbot<br>Pen-y-bont ar Ogwr |
| Cymoedd a De Ddwyrain | Rhondda Cynon Taf<br>Merthyr Tudful<br>Caerffili<br>Blaenau Gwent<br>Caerdydd<br>Bro Morgannwg<br>Torfaen<br>Sir Fynwy<br>Casnewydd |

## Diffiniad o raddau cymdeithasol

Yn Nhabl A.3 isod ceir diffiniad o'r dosbarthiad gradd gymdeithasol a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad.

**Tabl A.3: Diffiniad o raddau cymdeithasol**

| Gradd gymdeithasol | Diffiniad |
|---|---|
| **ABC1** | |
| A | Rheolaethol, gweinyddol neu broffesiynol uchel |
| B | Rheolaethol, gweinyddol neu broffesiynol canolradd |
| C1 | Goruchwyliol, clerigol a rheolaeth iau,<br>gweinyddol neu broffesiynol |
| **C2DE** | |
| C2 | Gweithwyr llaw medrus |
| D | Gweithiwr llaw lled-grefftus a di-grefft |
| E | Pensiynwyr y wladwriaeth, gweithwyr achlysurol neu weithwyr gradd isaf, di-waith gyda budd-daliadau'r wladwriaeth yn unig |

## Meintiau is-sampl

Mae Tabl A.4 isod yn dangos nifer yr ymatebwyr ar gyfer pob is-sampl a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad yn 2014 ac mae Tabl A.5 ac A.6 yn dangos y niferoedd ar gyfer 2018 a 2020 yn y drefn honno. Rhoddir nifer yr ymatebwyr ar gyfer y samplau heb eu pwysoli a'r samplau wedi'u pwysoli.

**Tabl A.4: Niferoedd is-sampl ar gyfer rhanbarth, oedran, rhywedd a gradd gymdeithasol (2014)**

| Is-sampl | Sampl heb ei phwysoli | Sampl wedi'i phwysoli |
|---|---:|---:|
| **Rhanbarth** | | |
| Gogledd Cymru | 248 | 228 |
| Canolbarth a Gorllewin Cymru | 190 | 172 |
| Bae Abertawe | 146 | 172 |
| Y Cymoedd | 212 | 177 |
| Caerdydd a De Ddwyrain Cymru | 216 | 263 |
| **Oedran** | | |
| 16 – 34 oed | 291 | 296 |
| 35 – 54 oed | 323 | 330 |
| 55+ oed | 398 | 385 |
| **Rhywedd** | | |
| Dynion | 438 | 492 |
| Menywod | 574 | 520 |
| **Gradd gymdeithasol** | | |
| ABC1 | 458 | 475 |
| C2DE | 553 | 536 |

**Tabl A.5: Niferoedd is-sampl ar gyfer rhanbarth, oedran, rhywedd a gradd gymdeithasol (2018)**

| Is-sampl | Sampl heb ei phwysoli | Sampl wedi'i phwysoli |
|---|---:|---:|
| **Rhanbarth** | | |
| Gogledd Cymru | 202 | 229 |
| Canolbarth a Gorllewin Cymru | 212 | 172 |
| Bae Abertawe | 170 | 173 |
| Y Cymoedd | 211 | 178 |
| Caerdydd a De Ddwyrain Cymru | 220 | 264 |
| **Oedran** | | |
| 16 – 34 oed | 271 | 297 |
| 35 – 54 oed | 295 | 331 |
| 55+ oed | 449 | 386 |
| **Rhywedd** | | |
| Dynion | 422 | 493 |
| Menywod | 593 | 522 |
| **Gradd gymdeithasol** | | |
| ABC1 | 498 | 509 |
| C2DE | 512 | 501 |

**Tabl A.6: Niferoedd is-sampl ar gyfer rhanbarth, oedran, rhywedd a gradd gymdeithasol (2020)**

| Is-sampl | Sampl heb ei phwysoli | Sampl wedi'i phwysoli |
|---|---|---|
| **Rhanbarth** | | |
| Gogledd Cymru | 125 | 161 |
| Canolbarth a De-orllewin Cymru | 298 | 242 |
| Cymoedd a De Ddwyrain | 290 | 310 |
| **Oedran** | | |
| 16 – 34 oed | 200 | 209 |
| 35 – 54 oed | 191 | 233 |
| 55+ oed | 322 | 271 |
| **Rhywedd** | | |
| Dynion | 327 | 347 |
| Menywod | 386 | 366 |
| **Gradd gymdeithasol** | | |
| ABC1 | 374 | 367 |
| C2DE | 336 | 343 |

## Atodiad B: Holiadur

GOFYN I BAWB

DANGOS CERDYN

C1. Pa mor aml ydych chi'n cael diod sy'n cynnwys alcohol?

- Byth
- Yn fisol neu lai
- 2 - 4 gwaith y mis
- 2-3 gwaith yr wythnos
- 4+ gwaith yr wythnos

********************************

GOFYN OS YN YFED ALCOHOL YN C1

DANGOS CERDYN A DANGOS CERDYN

C2. Cymerwch olwg ar y cerdyn hwn. Sawl uned o alcohol ydych chi'n ei yfed ar ddiwrnod arferol pan fyddwch chi'n yfed?

DANGOS CERDYN

- 1 – 2
- 3 – 4
- 5 – 6
- 7 – 9
- 10+

********************************

GOFYN OS YN YFED ALCOHOL YN C1

DANGOS CERDYN A DANGOS CERDYN

C3. Pa mor aml ydych chi wedi cael [6 uned neu'n fwy (os yn fenyw), neu 8 neu'n fwy (os yn wryw)], ar un achlysur yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?

- Byth
- Llai na misol
- Yn fisol
- Yn wythnosol
- Bob dydd neu bron bob dydd

********************************

GOFYN OS YN YFED ALCOHOL YN C1

DANGOS CERDYN

C4: Pa un o'r canlynol ydych chi'n ei yfed fel arfer, boed gartref neu pan fyddwch allan?

[AMLGOD]

- Cwrw neu lager
- Seidr
- Gwin
- Gwirodydd (e.e. fodca, wisgi a gin)
- Diodydd cymysg parod (e.e. Bacardi Breezer, Smirnoff Ice a WKD)
- Sieri neu bort

********************************

GOFYN OS YN YFED ALCOHOL YN C1

DANGOS CERDYN

C5. Pa mor aml ydych chi'n cael diod sy'n cynnwys alcohol gartref, neu yng nghartref rhywun arall?

- Byth
- Yn fisol neu lai
- 2 - 4 gwaith y mis
- 2-3 gwaith yr wythnos
- 4+ gwaith yr wythnos

********************************

GOFYN OS YN YFED ALCOHOL YN Y CARTREF YN C1

DANGOS CERDYN

C6a. Gan feddwl am yr alcohol rydych chi'n ei brynu i'w yfed gartref neu yng nghartref rhywun arall, pa rai o'r canlynol fyddech chi'n fwyaf tebygol o'i ddewis? [AMLGOD]

NODYN I'R CYFWELYDD: Os yw'r atebydd yn dweud mai ei briod/partner/cyd-letywr ac ati sy'n ei brynu nid nhw, dylid ateb o'u safbwynt nhw. (E.e. rydym eisiau gwybod beth sy'n dod i'r cartrefi yn gyffredinol)

- Brandiau rydych chi wedi rhoi cynnig arnyn nhw o'r blaen ac yn gwybod eich bod chi'n eu hoffi
- Brandiau sydd ar gynnig arbennig
- Y brandiau rhataf
- Brandiau label eu hunain
- Brandiau o ansawdd uchel
- Ddim yn gwybod

GOFYN OS NODIR MWY NAG UN YN C6a

DANGOS CERDYN

C6b. [os wedi ateb gyda mwy nag un] A pha un o'r rhesymau rydych chi wedi'u dewis fyddech chi'n dweud yw'r pwysicaf?

- Brandiau rydych chi wedi rhoi cynnig arnyn nhw o'r blaen ac yn gwybod eich bod chi'n hoffi
- Brandiau sydd ar gynnig arbennig
- Y brandiau rhataf
- Brandiau label eu hunain
- Brandiau o ansawdd uchel

- Ddim yn gwybod

*******************************

GOFYN I BAWB

C7. A ydych yn ymwybodol o unrhyw gynigion i osod rheolaethau penodol ar bris alcohol a werthir yng Nghymru?

- Ydw
- Nac ydw

******************************

GOFYN OS YDW YW ATEB YN C7

C7a. A allwch chi ddweud wrthyf beth ydych chi'n ei feddwl yw'r gyfraith newydd hon?

PEN AGORED

*******************************

GOFYN I BAWB

DANGOS CERDYN

Byddai isafswm pris yn gosod pris gwaelodol, sy'n golygu na ellid gwerthu na chyflenwi alcohol yn is na'r pris hwnnw. Ni fyddai'n cynyddu pris pob diod, dim ond y rhai sy'n cael eu gwerthu neu eu cyflenwi ar hyn o bryd am lai nag unrhyw isafbris. Bydd cyfreithiau newydd yn cael eu cyflwyno / cawsant eu cyflwyno ar 2 Mawrth eleni i osod yr isafbris am uned o alcohol ar 50c. Mae isafbris yn debygol o effeithio ar bris alcohol a werthir mewn siopau allfasnach (er enghraifft - mewn archfarchnadoedd a siopau trwyddedig) sy'n tueddu i werthu alcohol rhatach. Ni fydd llawer o effaith ar alcohol a werthir yn y fasnach (er enghraifft - mewn tafarndai a chlybiau) gan eu bod fel arfer yn gwerthu am lawer yn uwch na'r isafswm lefel o 50c yr uned.

C8. Cyn heddiw, a oeddech chi wedi gweld neu glywed unrhyw beth am y gyfraith newydd hon o gwbl?

- Do
- Naddo

*******************************

GOFYN I BAWB

DANGOS CERDYN

C9. Pa un o'r datganiadau hyn am y cynnig i gyflwyno isafbris uned am alcohol sy'n adlewyrchu eich barn orau?

- Rwyf o blaid y cynnig hwn
- Rwyf yn erbyn y cynnig hwn
- Ddim yn gwybod

*******************************

GOFYN OS O BLAID Y CYNNIG

C10a. A allwch ddweud wrthyf pam yr ydych o blaid y cynnig hwn?

PEN AGORED

*******************************

GOFYN OS YN ERBYN CYNNIG

C10b. A allwch ddweud wrthyf pam yr ydych yn erbyn y cynnig hwn?

PEN AGORED

*******************************

GOFYN I BAWB

DANGOS CERDYN

C11. Rwy'n mynd i ddarllen ambell ddatganiad am godi pris alcohol mewn archfarchnadoedd, siopau trwyddedig a siopau cyfleustra a hoffwn ichi ddweud pa mor gryf yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno â phob un.

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf

"Byddai codi pris y cynnyrch alcohol rhatach yn y siopau hyn yn helpu i leihau trosedd yn y wlad hon"

"Byddai codi pris y cynnyrch alcohol rhatach yn y siopau hyn yn helpu i leihau afiechyd yn y wlad hon"

"Ni fyddai codi pris y cynnyrch alcohol rhatach yn y siopau hyn yn gwneud unrhyw wahaniaeth i faint mae pobl yn ei yfed"

"Mae faint mae rhywun yn ei yfed yn ddewis personol ac ni ddylai'r llywodraeth ymyrryd"

*******************************

GOFYN OS YN YFED ALCOHOL

DANGOS CERDYN

C12. Ble ydych chi fel arfer yn siopa am alcohol? / Ym mha un o'r lleoedd canlynol ydych chi fel arfer yn siopa am alcohol?

- Archfarchnad, siop gyfleustra neu siop drwyddedig yng Nghymru
- Archfarchnad, siop gyfleustra neu siop drwyddedig yn Lloegr
- Ar-lein / danfon i'r cartref
- Arall (nodwch)

*******************************